Syr David Henshaw
Cadeirydd
Cyfoeth Naturiol Cymru

17 Rhagfyr 2019

Annywl Syr Henshaw,

**Gwahoddiad i ddod i gyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Hoffwn eich gwahodd i gyfarfod ddydd Mercher 26 Chwefror 2020 ar gyfer sesiwn graffu flynyddol.

Bydd y sesiwn yn cynnwys trafod cyflawniad Cyfoeth Naturiol Cymru o ran ei gylch gwaith.

Cyn y sesiwn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu papur briffio dwyieithog inni yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am faterion allweddol a chynnydd ers inni gynnal sesiwn graffu y tro diwethaf ym mis Chwefror 2019.

Yn benodol, byddem yn croesawu'r wybodaeth a ganlyn:

**Llythyr Cylch Gwaith**

- Crynodeb o'r camau gweithredu a gymerwyd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn llythyr cylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2018-2019.
- Crynodeb o'r camau gweithredu yr ydych wedi'u nodi i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y llythyr cylch gwaith ar gyfer 2019-2020.

**Gweithgarwch masnachol**

- Y wybodaeth ddiweddaraf am aildrefnu swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â gwasanaethau masnachol a'r camau gweithredu a gymerwyd yn

dilyn yr adolygiad annibynnol o feysydd busnes masnachol allweddol a’r trefniadau llywodraethu cysylltiedig.

**Cynllun Corfforaethol a Chynllun Busnes**

- Crynodeb o’r perfformiad yn erbyn y Cynllun Busnes a’r Cynllun Corfforaethol cyfredol, gan gynnwys yr adroddiad perfformiad diweddaraf ar y dangosfwrdd corfforaethol.

**Hunan-blismona**

- Crynodeb o unrhyw gamau gorfodaeth neu gamau hunan-blismona y mae’r corff wedi eu cymryd yn erbyn ei hun yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Rhaglen ddylunio’r sefydliad**

- Manylion am y ffordd y mae’r strwythur newydd yn caniatáu i Gyfoeth Naturiol Cymru gyflawni ei rôl ac unrhyw bwysau a/neu heriau sy’n gysylltiedig â’r dyluniad newydd.
- Crynodeb o ganfyddiadau’r adolygiad o arferion gwaith y Bwrdd.

**Rhaglenni Ariannu a Grantiau**

- Y wybodaeth ddiweddaraf am grantiau a rhaglenni ariannu partneriaethau.

**Y Sefyllfa Ariannol ac arbedion**

- Sefyllfa ariannol ddiweddaraf y corff.
- Manylion unrhyw achosion a wnaed i Lywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol yn fwy na’r dyraniad ariannol a gawsoch i fynd i’r afael â phwysau a chyfrifoldebau newydd.
- Eglurhad am y bwlch rhwng incwm a gwariant (fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2018-19) a sut y bydd hyn yn cael ei reoli.

**Gweithredu’r ddeddfwriaeth**

- Y wybodaeth ddiweddaraf am y gost wrth i Gyfoeth Naturiol Cymru gyflawni ei swyddogaethau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys pwysau ariannol.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd hyd yma wrth i Gyfoeth Naturiol Cymru gyflawni ei swyddogaethau o dan y deddfau hyn, gan gynnwys y meysydd penodol a ganlyn:
  - Sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu’r pum dull o weithio.
  - Y gwaith o ddatblygu’r Datganiadau Ardal.
  - Y gwaith o ddatblygu’r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

**Brexit**

- Y wybodaeth ddiweddaraf am oblygiadau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar Gyfoeth Naturiol Cymru, a throsolwg o'r gwaith a wnaed gan y corff i baratoi ar gyfer ymadael â'r UE.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r papur briffio inni erbyn dydd Llun 3 Chwefror 2020 fan bellaf.

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.